

Pris: 50c

Papur Pawb

Chwefror 2021

Rhif 466




tud 3
Pobl a Phethe

tud 6
Amser Cwis

tud 8
Glandyfi

tud 10
Moel Llyn

Llwyddiant Cyfnod Clo Dau Deulu Lleol Gast Tynygraig yn Torri Record y Byd



Kim

Mae menter hyfforddi a gwerthu cŵn defaid Dewi Jenkins, Tynygraig yn mynd o nerth i nerth. Rydym wedi clywed am sawl llwyddiant ganddo yn ddiweddar wrth iddo gael prisiau ardderchog am ei gŵn mewn arwerthiannau ar-lein yn sgil cyfyngiadau Covid-19.

Fe gofiwn iddo gael y pris mwyaf erioed am ast o dan flwydd pan werthodd Jet y llynedd am £12,000. Ond yr wythnos diwethaf, torrodd Dewi ei record ei hun pan werthodd Kim, gast Border Collie, am swm anhygoel o £27,100 mewn arwerthiant gan Farmers Marts, Dolgellau a hynny ond ddiwrnod cyn ei phen-blwydd yn flwydd.

Yn ôl Dewi, mae dal mewn sioc ond yn hapus iawn fod Kim wedi symud i gartref arbennig a hyfryd ar bwys Stoke on Trent. Mewn erthygl yn BroAber 360 mae Betsan Siencyn yn gofyn cwestiwn diddorol iawn – tybed a oes dyfodol i arwerthiannau traddodiadol bellach ar ôl llwyddiant yr arwerthiannau ar-lein?

Beth bynnag fo'r ateb i hynny, rwy'n siŵr y bydd Dewi yn parhau i fod yr un mor llwyddiannus. Llongyfarchiadau mawr i ti Dewi ac rydym yn edrych mlaen i glywed pa record byddi di'n ei thorri nesaf!

Llaeth Teulu Jenkins Cerrigcaranau Uchaf

Ar ddydd Gwener, 15fed o Ionawr, wedi misoedd o ymchwilio a pharatoi, cychwynwyd ein menter newydd.

Mae fferm Cerrigcaranau wedi bod yn fferm laeth erioed, a ni yw'r 6ed genhedlaeth o'n teulu i amaethu yma. Rydym wedi sefydlu llaethdy fechan ar y fferm er mwyn pasteureiddio'r llaeth o'n fuches. Wedi'r broses basteureiddio, sydd yn golygu codi tymheredd y llaeth i 65°C am 30 munud, rydym yn trosglwyddo'r llaeth i'n safle manwerthu, sef y Cwtsh Llaeth yn Aberystwyth, ar safle'r Hen Ysgol Gymraeg, ar draws y ffordd o Marks a Spencer.

Mae ein llaeth organig ar werth am £1.30 y litr gyda'n ysgytleath yn £2.00 y litr.

Mae Llaeth Teulu Jenkins hefyd ar gael i'w brynu yn Siop Cletwr, Tre'r Ddol, ac rydym yn gobeithio agor ein ail Cwtsh Llaeth ar safle garej Huw Lewis yn Machynlleth yn fuan iawn.

Rydym yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth rydym wedi derbyn hyd yma gan bawb, ac rydym wrth ein bodd yn cael adborth da am flas ein llaeth.

Mae modd dilyn ein datblygiadau trwy ein dilyn ar Instagram a Facebook @cwtshllaeth ac mae mwy o wybodaeth am y fenter ar ein gwefan – www.laethjenkinsmilk.co.uk

Eifion, Geraint a'r teulu



Cwsmeriaid cyntaf i'r Cwtsh Llaeth ar y 15fed o Ionawr – Betsan ac Ynyr Siencyn, Tanrallt



Teulu Jenkins, y 6ed a'r 7fed genhedlaeth – O'r chwith: Eifion, Elinor, Sara, Lowri, Eleri, Leusa, Tomi Jac a Geraint Jenkins

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:

Gwyn Jenkins
(01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com

Tynnu lluniau:

Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL

Tal-y-bont:

Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
832592

Parsel Henllys:

Rhys Huws, Llwyn Onn
832076

Bont-goch:

Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch
832566

Llangynfelyn:

Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
832573

Eglwysfach/Ffwrnais:

Non Griffiths
(01654) 781264

Rhwydweithiau cymdeithasol:

Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Cadeirydd:

Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
832697

Is-gadeirydd:

Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch
832566

Ysgrifennydd:

Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
832344

Trysorydd:

Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
832093

Tanysgrifiadau:

Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
832448

Hysbysebion:

Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont

Dylunio:

Iolo Ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

Plygu'r Papur:

Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins

Dosbarthwyr:

Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones;
Carys Briddon, Bob Williams

Cyhoeddwyd gan
Gymdeithas Papur Pawb.
Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru.

CYMRAG

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...
www.papurpawb.cymru
hefyd dilynwch ni ar ddyddar a gwepllyfr (@papurpawb)

GOLYGYDDION

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Llio a Cathryn, gydag Iolo yn dylunio. Diolch iddynt.

Y golygyddion ar gyfer rhifyn Mawrth fydd Non a Gerwyn (nonjones100@yahoo.co.uk).

Y dyddiad cau yw 5 Mawrth a bydd y papur ar werth ar 12 Mawrth.

Llythyr

Annwyl Olygyddion,

Braf oedd darllen erthygl yn rhifyn mis Rhagfyr gan Gwilym Jenkins yn olrhain ambell hen enw anghofiedig. Erbyn heddiw mae'r rhan fwyaf o'r Cymry yn y pentref yn bobl ddwâd felly diolch iddo am ein goleuo ynglŷn â Choed Duon a Shafft Winsi. Ar y daith o Bentrebach i'r pentref rhaid pasio'r fan ble mae'r fainc newydd sydd nawr, diolch i un erthygl fer, ag enw. Sawl man yn nhalgylch Papur Pawb sydd ag enw mae rhai o drigolion gwreiddiol y pentref, ond nid y to nesaf, yn cofio? Beth petai eraill yn ychwanegu at ein gwybodaeth leol ni yr hwyr ddyfodiaid? Os na wneir hyn yn fuan mae'n bosib bydd yr enwau gwreiddiol gyda'u hanes ar goll am byth. Apêl sy gen i i'r rhai a fagwyd yn y pentref i fynd ati i'n ddiymdroi i gofnodi, o bosib drwy dudalennau Papur Pawb, y manau hyn. Edrychaf ymlaen at eich cyfraniad a diolchaf ymlaen llaw am eich ymdrechion.
Rhys Huws

ADIT YCHWANEGOL

Ar ganol mis Rhagfyr bu swn mawr ger y fynedfa i Allt y Crib wrth i gerbydau anferth gael eu dadlwytho o lorïau ben bore. Mae arwyddion mewn lle ers misoedd yn cyhoeddi yr hyn mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn bwriadu gwneud yn y coed a'r trwr oedd dechrau'r gwaith paratoi. Y cam cyntaf oedd lledu'r lôn ar gyfer peiriannau llawer mwy o faint a fydd dros nifer o flynyddoedd yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r Allt. Rydyn ni wedi nodi mewn erthygl gan Gwilym Jenkins ym Mhapur Pawb mis Rhagfyr am gollu Siafft Winsi sef un a oedd ger y fainc newydd ar y ffordd i Bentrebach. O ganlyniad i greu lôn newydd bryd hynny collwyd siafft ond os collwyd un flynyddoedd yn ôl gweler yn y llun dadorchuddiwyd un newydd arall o fewn y ddeufis ddiwethaf yn agosach at y pentref.



Wrth gerdded heibio Coetmor tuag at Alltgoch a chyn dechrau'r ddringfa serth rhaid croesi prif lôn y goedwig ac yna ar y dde mae'r hen-siafft-newydd i'w gweld wedi ei hamgylchynu yn anffoddhaol gan ffens o blastig. Gerllaw mae coeden dal wedi cwmpo yn ystod gwyntoedd cryfion ddiwedd Ionawr. Gan fod y lôn wedi ei lledu gellir disgwyl i'r gwaith arfaethedig gychwyn cyn bo hir ond nid oes dyddiad wedi ei nodi. Bydd tirlunio llawer rhan o Allt y Crib yn cymryd lle: bydd cwmpo coed mewn manau, chwynnu mewn manau eraill, o bosib plannu o'r newydd a thacluso, ac mae wir angen hynny. Nid gwaith tymor byr yw hyn ond gwaith achlysurol dros flynyddoedd. Pwyll piau. Y gobaith yw y bydd yr Allt ar ei newydd wedd yn harddach nag erioed. Nid oes gwaith mawr wedi ei wneud ers oesoedd ac oherwydd gwyntoedd cryfion, yn enwedig y rhai o'r dwyrain, mae'r olygfa mewn ambell fan yn wirioneddol druenus. Mae cymaint yn cerdded y lonydd niferus drwy'r flwyddyn. Wedi i CNC orffen eu gwaith edrychwn ymlaen i fedru mwynhau darn hyfryd, tawel o'r pentref ymhell o swm ffordd fawr a'r byd a'i drafferthion. Er mwyn iechyd meddwl anogir y cyhoedd i fentro i'r awyr iach ac Allt y Crib yw'r fangre ddelfrydol i wneud hynny. Awn yno'n iach a saff.

Llwybr Iletach



Mae'r llwybr cyhoeddus (i gerddwyr yn unig) sy'n mynd heibio Parc Chwarae Bont-goch wedi ei ledu yn ddiweddar i ganiatau mynediad i ddefnyddwyr mewn cadair olwyn. Gosodwyd dwy fainc yno yn ogystal.

Y CWIS

Enillydd y 'Cwis Cyflym' i blant ysgolion cynradd yn rhifyn Ionawr oedd Abigail Feaver, naw mlwydd oed, Rhosymeirch, Ynys Môn. Llongyfarchiadau iddi hi. Mae'n amlwg bod Papur Pawb yn bapur bro rhyngwladol erbyn hyn!

Yr atebion cywir oedd: 1. Tri; 2. Mawrth 21 2021; 3. Tom Cosson; 4. Marcus Rashford; 5. Pobol Drws Nesaf; 6. Rhian; 7. Dol-y-Sant; 8. Gellimanwydd; 9. Ceirw; 10. Bron i £2000; 11. Cacen Nadolig; 12. 40 pwynt.

DYDDIADUR

Does dim Dyddiadur Papur Pawb yn y rhifyn hwn oherwydd yr amgylchiadau presennol ond pan fydd y cyfyngiadau yn llacio cofiwch anfon manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o'r papur.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Sue a Will Hopkins a'r bechgyn, Dyffryn Tal-y-bont ar farwolaeth Paul Thomas, sef brawd, brawd yng nghyfraith ac ewythr ddechrau Ionawr.

Bu farw Virginia Kathryn (Ginny) Moore gynt o Felin ac Emporium Flats yn Singleton, Treforus ddiwedd Rhagfyr. Roedd yn ferch i'r diweddar Basil a Kay Moore a chwaer i Juliet, Linda, Josie a Sally.

Estynnwn ein cydymdeimlad i Siôn a Lisa Evans a'r teulu, Y Dderwen, Tal-y-bont, ar farwolaeth tad Siôn, Mr Hywel Evans, Capel Dewi.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu Mrs Gaenor Hall, Dole, a fu farw'n 88 mlwydd oed yn ddiweddar.

Cydymdeimlir yn ddiffuant iawn â Shân Jones a'i theulu, Tŷ'r-banc, Bont-goch yn dilyn colli ei mam, Mrs Gwyneth Evans, Maes Henllan, Llandre yn ddiweddar.

Cydymdeimlir hefyd gyda Peter & Karen Egan, Cerrig Hirion, Bont-goch yn dilyn colli eu mab-yng-nghyfraith yng Nhasnewydd ar ôl cyfnod hir o salwch.

Marwolaeth cyn-brifathro

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth cyn-brifathro Ysgol Llangynfelyn, Mansel James, yn 92 mlwydd oed. Daeth yn brifathro'r ysgol yn 1959 a bu'n byw yn Nhŷ'r Ysgol hyd nes ei ymddeoliad yn yr 1980au. Cydymdeimlwn â'i weddw, Mrs Heulwen James, a'r plant Melvyn a Meryl a'u teuluoedd.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Esther Llwyd Ifan, Llys Alaw, Tal-y-bont ar lwyddo yn y cwrs Ymarfer y Gyfraith (LPC), ac am ennill Gradd Meistr yn y Gyfraith o Brifysgol Caerdydd.

Pobl a Phethe



Nofio yn yr awyr agored

Mae nofio wedi dod yn rhan gynyddol bwysig o fy mywyd cyn ac yn ystod y pandemig. Dechreuodd y cyfan tua thair blynedd yn ôl pan benderfynais ei bod yn bryd dysgu'r dechneg rydd (front crawl) yn iawn. Mae gen i gof plentyn o gael fy nysgu sut i godi bricsen mewn pâr o byjamas o waelod pwll Plasrugg! Ond nid sut i nofio 'go iawn'.

Roedd fy ngwersi cyntaf, gyda Peter Jenkins o Dal-y-bont fel fy hyfforddwr, yn dipyn o agoriad llygad - felly dyma sut mae nofio! O fewn chwech mis es i o fethu â gwneud pum hyd y pwll i nofio 2km! Yna aeth hyn i 5km o fewn blwyddyn, gan gymryd rhan mewn digwyddiadau nofio yn Llyn Tegid, Tal-y-llyn, aber y Dyfi, yn ogystal ag ymhellach i fwrdd yng ngwledydd Prydain ac Iwerddon.

A phan mae'n ddiogel gwneud hynny, mae nofio yn yr awyr agored wedi bod yn ddiddanwech hyfryd i'm bywyd yn ystod COVID. Rydym wedi ein bendithio â dŵr glân mewn lleoliadau anhygoel yn yr ardal - ac rwyf wedi mentro i ddyfroedd yr Einion, Cletwr, Ystwyth, Leri a Phendam. Ac mae'r môr mor agos hefyd wrth gwrs! Mae nofio yn y môr bob amser yn wahanol, gyda'r tywydd cyfnewidiol, y llanw a thrai, a'r traeth yn symud o hyd gyda'r goedwig danddwr yn ymddangos ac yn diflannu. Ychydig cyn y Nadolig, roedd yn bleser pur cael ymuno gyda Rachel Solnick ynghanol y tonnau ar gyfer yr ei hymdrech arbennig i godi arian ar gyfer y Cylch Meithrin.

Rwyf mor falch fy mod yn gallu nofio yn yr awyr agored trwy gydol y flwyddyn, hyd yn oed yn ystod y gaeaf - er bod fy mhhecyn ôl-nofio bellach yn cynnwys un, ac weithiau dwy botel dŵr poeth.

Helen Ovens

Llongyfarchiadau mawr i Tom Cosson, Dôl Pistyll, ar gyrraedd rownd derfynol Mastermind Cymru. Er na lwyddodd i ennill roedd wedi mwynhau'r profiad yn fawr. (Os hoffech roi cynnig ar ateb rhai o gwestiynau Mastermind Cymru ewch i dudalen 6)

Mae Dewi Jenkins, Tyngraig, wedi torri record y byd wrth werthu ci! Llongyfarchiadau mawr iddo a phob lwc iddo yn

y dyfodol. (Gweler stori ar y dudalen flaen)

Llongyfarchiadau i Wendy Foulkes ar enedigaeth wyres arall, merch i Steffan a Shannon, Olivia Grace a gorwyres arall i Betty ac Erfyl Foulkes.

Gwellhad Buan

Anfonwn ein dymuniadau gorau at Mair Morgan, Aberceulan Flat, ar ôl cael

triniaeth ar ei phen-glin yn Ysbyty Werndale.

Ar y radio

Braf oedd clywed Anwen Jenkins, Tyngraig, Tal-y-bont ar raglen Siân Cothi ar Radio Cymru yn adrodd hanes ei busnes crefft llwyddiannus., 'Ani-bendod', a hynny mor naturiol.

Dwyn o'r garej

Blin iawn oedd clywed bod lladron wedi dwyn offer gwerthfawr o Garej Davmor, Tal-y-bont, ym mis Ionawr.

Penblwydd Hapus

Penblwydd hapus arbennig i Neilson Stirling, Hafod Elerch, Bont-goch, sy'n edrych ymlaen ar ddefnyddio ei docyn teithio bws.

Llongyfarchiadau i Jess Williams, Bronallt, Bontgoch ar ddathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar.

Newid Aelwyd

Dymuniadau gorau i Tracy a Sean Cleary a'r teulu, Hengoed, Bont-goch yn eu cartref newydd a adeiladwyd drws nesaf i Hengoed, ac a enwyd yn Brynlllys.

Croeso Cynnes

Croeso cynnes i Sonia Hughes a Ben Moseley i Erwau Glas ar y stryd fawr yn Nhalybont. Sonia yw gweinyddwraig y Lolfa ac rydym yn hyderus y cânt flynyddoedd lawer o hapusrwydd yn eu cartref newydd.

Goleuo Ffenestri

Mae Helen Sharma, Tanllidiart, Bont-goch yn trefnu digwyddiad i gael y trigolion i oleuo eu ffenestri am dridiau ar ddiwedd Chwefror, er mwyn codi ein calonnau ar yr adeg heriol hon.



Ysgol



Osian a'i wyn



Map Tal-y-bont Isla




Aderyn celf Cadi



Llun Elsi



Caio wrth ei waith



Fy mreuddwyd - Arthur




Llun Minnie



Carden Freya



Llun Swyn



Llun graff Alys



Llun Bess



Llun Alaw

i'w weld:mewn gerddi,parciau a choedtir yn bwyta:pryfed,malwod a mwydod yn nythu:yn agos at y ddaear wyau:3 i 6 o wyau smotiog gwyn oelion:y ceiliog a'r iar yn debyg hyd:i fyny at 14cm.



Llun Lela

Tal-y-bont


Mae'r cyfnod 'dan glo' diweddaraf wedi dangos unwaith eto pa mor greadigol gall yr athrawon a'r plant fod yn wyneb nifer o heriau anghyffredin. Mae'r athrawon wedi bod yn gweithio'n galed yn paratoi gweithgareddau amrywiol a chyffrous yn ogystal â chynnal sesiynau bywiog 'wyneb i wyneb' ar-lein. Hoffwn i ddiolch o galon i'r holl staff am eu cefnogaeth a'u hyblygrwydd dros yr wythnosau diwethaf, maent yn werth y byd!

Mae'r plant hefyd wedi ymateb yn adeiladol iawn i'r sefyllfa gan gwblhau gweithgareddau'n gyson ac mae'n bleser gen i gyflwyno sampl bychan o'r gwaith yna er mwyn i chi weld yr amrywiaeth. Rwy'n siŵr y cytunwch eu bod wedi cael cryn dipyn o hwyl arni wrth ymroi i gyflawni'r tasgau gyda'r fath frwdfrydedd.

Rhaid diolch hefyd i'r rhieni am ein cefnogi yn ystod y cyfnod yma ac rydym yn sylweddoli pa mor anodd ydy hi i sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng gwaith a chwarae.

Erbyn i chi ddarllen Papur Pawb, mae'n debygol y bydd rhai plant ar fin dechrau dychwelyd i'r ysgol, ac rydym yn gobeithio y byddwn yn gallu croesau pawb yn ôl i'r safle'n ddiogel cyn gynted â phosib.

"Rwy'n gweld gyda fy llygaid bach i..."
Ewch i wylio'r traffig, pa gerbydau welwch chi?
Rhowch tic wrth ymyl y cerbyd.
"Eye spy with my little eye..."
Go and watch the traffic what vehicles can you see?
Put a tick in the box when you see it.




Llun cerbydau Mostyn

Fy Hoff llyfr David Walliams

Fy hoff llyfr David Walliams yw Cryw Canol Nos, mae wedi cael ei gyfieithu i Gymraeg gan Mared Llwyd, fy ail Anti. Mae y llyfr wedi cael ei cyflwyno i fi.


Maer llyfr am plant yn yr ysbty yn sleifio o gwmpas i fynd ar antur, byddai ddim yn gallu dweud y gweddill achos bydd e'n sbwlio'r llyfr!



BGT

Mae David Walliams dim jyst yn Awdur, mae hefyd yn beirniad yn Britain's Got Talent. Mae BGT yn rhaglen teledu pan mae pobl draws y deyrnas unedig yn dangos eu talent, mae rhai ddim yn dda iawn, a mae rhai yn wych.

Llun David Walliams Martha



Llun Ela

Colofn Ben Lake



Mae'r dyfodol yn ein dwylo ni...

Mae'r misoedd diwethaf wedi gorfodi gwleidyddion, y gwasanaeth sifil, llywodraeth leol, mudiadau a busnesau i newid - newid polisïau, newid blaenoriaethau, newid gwasanaethau a newid ein ffordd o fyw – i gyd yn sgil Covid-19.

Ond a fydd Covid-19 yn fodd i ni newid cymdeithas er gwell, wrth i ni edrych i'r dyfodol?

Mae ymdrech arwrol y gwasanaeth iechyd i roi rhaglen frechu nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen ar waith yn rhywbeth sydd wedi rhoi gobaith i bob un ohonom, ac wedi gwneud i ni fentro meddwl am fywyd ar ôl Covid.

Ond pa fath o gymdeithas ydyn ni eisïau ei gweld yn y dyfodol? Ydyn ni eisïau dychwelyd i'r hen drefn neu ydyn ni eisïau ailadeiladu cymdeithas mewn modd sy'n cryfhau ein cymunedau?

Yn sicr mae'r pandemig wedi'n hatgoffa unwaith ac am byth o bwysigrwydd gweithwyr allweddol: o'r nyrsys i'r cynhyrchwyr bwyd; o staff ein cartrefi gofal i'r gweithwyr sy'n casglu sbwriel – maent wedi cadw cymdeithas i fynd drwy gyfnodau tywyllaf y pandemig, ac mae angen i ni gydnabod hynny ar fyrder. Mae angen budsoddi yn ein gwasanaethau cyhoeddus. Mae angen codiad cyflog teg ar weithwyr y gwasanaeth iechyd a'r sector gofal. Mae angen rhoi gwerth ar y gadwyn fwyd leol a'r busnesau bach lleol hefyd sydd mor ganolog i'r economi lleol.

Maes arall sydd angen sylw ar fyrder yn sgil y pandemig yw iechyd meddwl, yn enwedig yma yng nghefn gwlad. Mae'n anodd dadlau gyda'r rheiny sy'n rhybuddio y gallai problemau iechyd meddwl ddatblygu i fod yn bandemig ynddo'i hun os na wnawn ni fuddsoddi ar fyrder a chyflwyno newidiadau sylweddol i'r ffordd ry'n ni'n cefnogi unigolion o bob oed sy'n dioddef. Mae angen mwy na chodi ymwybyddiaeth am iechyd meddwl erbyn hyn (er mor bwysig yw hynny) - mae angen buddsoddi a gweithredu nawr cyn ei bod hi'n rhy hwyr.

Argyfwng arall sydd wedi dod i'r amlwg fwyfwy yn sgil y pandemig yw'r argyfwng dai, yn enwedig yma yn y gorllewin. Er gwaetha pa mor gymhleth yw'r sefyllfa, does dim dwywaith bod angen trafod y pwnc a rhoi llais i bobl ifanc lleol sy'n ei chael hi mor anodd i ymagrtrefu yn eu cynefin. Yn bwysicach oll efallai, mae angen sicrhau bod unrhyw benderfyniadau yn ymwneud â thai a chynllunio yn cael eu gwneud yn lleol, ac er lles ein cymunedau.



Dros yr wythnosau diwethaf efallai y bu rhai ohonoch yn dilyn llwyddiant un o drigolion Tal-y-bont, Tom Cosson, ar raglen gwis Mastermind Cymru. Atebodd cymaint o gwestiynau am glwb pêl-droed Norwich City, Jimmy Hendrix a chwestiynau cyffredinol fel ei fod wedi cyrraedd y ffeinal! Llongyfarchiadau mawr i Tom am wneud mor dda.

Rydym wedi crynhoi rhai o'r cwestiynau gafodd Tom i weld faint fyddai darllenwyr Papur Pawb wedi eu cael yn gywir. Cofiwch nad ydych chi'n cael gofyn i Alexa neu Google am yr atebion!

Ewch amdani!

O ba wlad daw'r gwin reis 'sake'?

Ar ba gwrs rasio mae 'Grand National Cymru' yn cael ei chynnal?

Pa albwm enwog o 1973 sydd â phrism ar y clawr yn troi pelydr golau gwyn mewn i liwiau'r enfys?

Pa ddinas yn nwyrain canolbarth Lloegr oedd y cyntaf i wynebu cyfnod clo llym lleol yn 2020?

Y cyffredin (neu'r harbwr) a'r llwyd yw'r mathau o ba anifail sydd yn frodorol i Brydain?

Beth yw enw cerflun 20m gan Syr Anthony Gormley, sydd yn sefyll wrth mynl Gateshead?

Pa actor o Gymru ddaeth yn enwog am bortreadu cymeriad 'Spike' yn y ffilm Notting Hill?

Pa awdur greodd y cymeriadau Jeeves a Wooster?

Pa dref yng ngogledd Cymru sydd yn adnabyddus fel 'Lourdes Cymru' oherwydd y pererindodau i weld ffynnon Gwenffrewi?

Am beth mae F.B.I. yn sefyll?

Hwyl yn yr eira



**CYMDEITHAS SIOE TAL-Y-BONT
CYFARFOD BLYNYDDOL RHITHIOL**

Nos Lun 1 Mawrth 2021

8:00 yh

Croeso cynnes i bawb

Cysylltwch â phwyllgor y sioe am wahoddiad.



Pistyll y Llan | Talybont | Ceredigion | SY24 5HF
gruffrhysones@googlemail.com

07594 349 354
01970 832 543

Gruffydd Jones
Briciwr • Gwaith Maen • Slabio



NICEIC
APPROVED
CONTRACTOR

Alun Davies
Contractiwr Trydanol


T 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
E alun.davies142@btinternet.com

Y Plucking Pheasant yn Rhyngwladol!!

Rhybudd: Ffêc News!

Mae anturiau Gerwyn a Non fel landlordiaid y *Plucking Pheasant* wedi bod yn donic i lawer ohonom yn ystod y flwyddyn ddiflas yma. Rydym wedi mwynhau Crand Prix, Regata, darlith ar 'feinciau Tal-y-bont', yn ogystal â phenwythnos gymnasteg hynod o chwyslyd!



Rydym yn hapus iawn i gyhoeddi newyddion o ohebydd Papur Pawb yn Seland Newydd (Iestyn Morgan), am fenter gyffrous newydd gan entrepreneuriaid enwocaf Tal-y-bont. Mae'n debyg bod y ffesant wedi ymestyn ei hadenydd!



Tybed beth fydd y digwyddiad nesaf...

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Talliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Rhian
trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

Gwasanaeth argraffu diguro

Holwch Paul
am bris!
paul@yloffa.com
01970 832 304

yloffa
Talybont
Ceredigion
SY24 5HE
www.yloffa.com

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cyfarfod Misol Mis Ionawr 2021

Cynhaliwyd cyfarfod misol cyntaf y flwyddyn ar "Zoom" ar Nos Lun, 25 Ionawr 2021, gyda deg o'r Cynghorwyr yn bresennol ynghyd â'r Clerc, Mr Rab Jones. Dymunodd y Cadeirydd, Cyng. Nia Richards, groeso cynnes a Blwyddyn Newydd Hapus i bawb.

Problemau gyda Llygredd Carthffosiaeth yn Nhal-y-bont

Cafwyd trafodaeth am y sefyllfa diweddar gyda nifer o'r tai ar waelod y pentref yn Nhal-y-bont yn cael problemau gyda llygredd carthffosiaeth. Cytunwyd ymestyn croeso i Mr Michael Fothergill i gyfarfod nesaf y Cyngor i egluro'r problemau mae'r trigolion yn ddioddef.

Cae Bach Tal-y-bont

Cafwyd diweddariad oddi wrth y Cadeirydd, Cyng. Nia Richards, ynglŷn â materion gyda'r offer chwarae sydd angen sylw yn y Cae Bach yn Nhal-y-bont a chytunwyd bydd yr Is-Bwyllgor Prosiect Cae Bach yn cwrdd yn ystod Mis Chwefror.

Sefyllfa Coronafeirws

Cafwyd diweddariad oddi wrth y Cynghorydd Sir, Cyng. Ellen ap Gwynn, ar y sefyllfa ddiweddaraf gyda coronafeirws o fewn y Sir. Cadarnhawyd fod pethau yn symud ymlaen yn dda gyda'r broses o gynnig brechiad i bawb dros 70 oed.

Cymorthdaliadau 2020/21

Bu'r is-bwyllgor cyllid yn ystyried y ceisiadau yn ystod yr wythnos flaenorol a chytunwyd cadarnhau argymhellion yr is-bwyllgor i gynnig cymorthdaliadau at y mudiadau lleol canlynol:- Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont, Clwb Pêl-droed Ieuencid Tal-y-bont, Clwb Pêl-droed Tal-y-bont a'r Cylch, Ffrindiau Cartref Tregerddan, Cylch Meithrin Tal-y-bont, Cymdeithas Papur Pawb, Cymdeithas Amaethyddol Tal-y-bont (Sioe Tal-y-bont), ac Ysgol Tal-y-bont.

O fewn y Sir cytunwyd cymorthdaliadau i Cruse Ceredigion ac yn genedlaethol cytunwyd cadarnhau cymorthdaliadau i Wasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru, Eisteddfod yr Urdd, a Tenovus Cymru.

Materion Ffyrdd a Materion Eraill

Cafwyd diweddariad ar y sefyllfa gyda nifer o eitemau sydd angen sylw ar y ffyrdd yn y gymuned a nifer o faterion eraill. Cytunwyd bydd Is-Bwyllgor y Fynwent yn cwrdd yn ystod Mis Chwefror i drafod eitemau sydd angen sylw yn y fynwent. Hefyd cytunwyd cadarnhau nifer o daliadau yn ychwanegol i'r cymorthdaliadau uchod.

Rab Jones

Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

rab.jones@btinternet.com / 07831 402 002 / 07904 716 180

STORFA HUNAN FYNEDIAD

UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI

**MONITRO DIOGELWCH
24 AWR**

Storfa Cartref & Busnes

Bocsos a Bubblewrap

Symud gyda **Wales REMOVALS**

STORFA CANOLBARTH CYMRU

Tel: 01654 703592

Hool Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

MID WALES STORAGE

www.midwalesstorage.co.uk

Gorsaf Glandyfi yn y Pumdegau: Rhai Atgofion

Mae cysylltiad fy nheulu â gorsaf Glandyfi yn ymestyn yn ôl bron i gant-a-hanner o flynyddoedd, i'r adeg pan symudodd fy hen-dad-cu, William Pugh, i'r ardal i weithio fel 'plate layer' gyda'r Rheilffyrdd Cambrian. Fe'i dilynwyd yno gan ei fab, William, a 'nhad, Meurig.



Meurig Pugh, tad yr awdur, yn ei lifrai.

'Gangar' oedd fy nhad-cu, yn gyfrifol am sicrhau diogelwch y rheilffordd ar draws y gors rhwng Borth a Chyffordd Ddyfi. 'Roedd ganddo griw o weithwyr i'w gynorthwyo; dynion caled, cyhyrog, cryf na fentraï neb eu croesi. Ond 'roeddynt bob amser yn dyner ac amyneddgar tuag at blentyn. Un o'm cofion cynharaf yw gwylid eu cystadlaethau poeri. Byddai pob cystadleuydd yn cnoi baco am ryw dair munud cyn poeri at ddarn deuswllt ar y llawr. Yr enillydd oedd y cyntaf i daro'r arian. 'Roedd yn syndod sut gallent greu pistyll o boer, yn

ymestyn yn ddi-dor o'u genau hyd at y llawr. Ceisiais droeon i'w hefelychu; ond, heb faco, 'doedd dim gobaith.

Nid pawb oedd yr un mor serchog. Dyn ceccrus, hunanbwysig oedd Hopkins yr orsaf-feistr; bob amser yn barod i bigo bai. Wedi cerdded ar hyd y lein o Borth i Glandyfi, byddai 'nhad-cu'n galw i mewn i'r bocs signals i gael paned gyda' nhad. 'Roedd Hopkins yn hollol anfodlon ar hyn. Un bore, penderfynodd ddanfon fy nhad-cu oddi yno. Brasgamodd i fyny'r grisiau i mewn i'r bocs. 'Drychwech 'ma! Rheol yw rheol...'. Ond cyn iddo yngan sillaf arall, dyma'i sawdl yn taro'r llawr linoliwm slic. I ffwrdd a'r sglefriwr bollog ar draws y bocs cyn syrthio'n swp yn erbyn y wal. Nid pawb oedd mor oddefgar â 'nhad. Aeth y bwlio'n drech ar un gweithiwr. Rhoddodd fonclust mor galed i'w fos nes iddo ddiffannu, a'i din dros ei ben, i mewn i ardd y plattform. Danfonwyd achwyniad swyddogol i'r pencadlys yn Stoke. Ond, pan ddaeth swyddog draw i archwilio'r mater, doedd neb wedi gweld dim!



Trên wedi 'i thynnu gan 'Foxcote Manor' yn gyrru trwy Glandyfi am 1.06 ar brynhawn Dydd Iau, 15ed Awst, 1963 (llun Vernon Parry)

'Roedd gwraig Hopkins wedi dwli ar Tricsi, yr ast fach a fyddai'n cario o dan ei chesail o fore gwyn tan nos. Un prynhawn dyma hi'n dod allan i iard yr orsaf, gyda'r ast o dan un fraich a photel lawn o chwisi o dan y llall. 'Allwch chi'n helpu i?' meddai wrth Jack, un o'r gangars. 'Ma Tricsi fach yn wâl. Ma nhw'n gweud bod wisgi'n dda i 'nifeilied sâl. Ond 'sgen i 'mo'r stumog i roi e iddi'. Allwch chi helpu?' 'Mi wna i 'ngora', meddai Jack. 'Ond fydd o ddim yn beth del i'w weld, wchi. Well i chi droi i ffwrdd.' Cyn gynted ag y gwnaeth hynny, dyma Jack yn arllwys y botel gyfan lawr ei gorn gwddf ac yn rhoi slap i'r ast. 'Bydd popath yn iawn 'rwan', meddai ac i ffwrdd ag ef heb golli cam.

Byddai henoed y pentref yn treulio llawer o amser ar yr orsaf yn clebran a hel hen atgofion. Yn eu plith oedd Oliver, cyn fugail ar ystâd Cymerau. Byddai bob amser yn cario pastwn, a fyddai'n ei ddefnyddio i daro ysgwydd pwy bynnag a fyddai'n siarad gydag ef, er mwyn pwysleisio'i bwynt. Un bore 'roedd yn aros ar y plattform pan ddaeth y trên i mewn. Taflwyd y drysau ar agor a neidiodd mintai o filwyr Gurkha allan, gan ffurfio dwy res syth. Trwy'u canol daeth y Cadfridog Lewis Pugh. 'Duw, Duw, Lewis bach!', meddai Oliver, gan godi ei bastwn i'w gyfarch. Symudodd y milwyr fel un. Gallai Oliver wedi bod yn gelain y bore hwnnw, oni bai i'r cadfridog alw 'At ease!'

Symudodd fy nhad o Glandyfi yn 1958. Saith mlynedd yn ddiweddarach, aberthwyd yr orsaf ar allor Beeching. Diflannodd elfen bwysig yn hanes fy nheulu a'r fro.

Aelwyn Pugh

DONIOL

Fe brynon ni garpedi newydd ar gyfer y tŷ. Roedd y dyn â'u gosododd yn arfer bod yn beilot gyda *Ryanair*. Gwnath jobyn da iawn o'r cyfan ac yn arbennig gyda'r landing.

Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

Roedd dau o'r Amerig yn teithio drwy Gymru. Roedden nhw yn sir Fôn pan welon nhw'r enw Llanfair P G ar arwydd. Roedd rhaid mynd i weld y pentref gyda'r enw hir a chael rhywbeth i fwyta yr un pryd. Daeth y bwyd i'r bwrdd felly dyma gyfle i holi'r ferch ble'r oedden nhw. Mac-don-alds oedd ei hateb.

Yn ystod y wers arlunio gosododd yr athrawes y dasg o dynnu llun i'r plant. Aeth o gwmpas y dosbarth gan edrych dros ysgwyddau'r plant tan ddaeth at un ferch fach weithgar iawn.

'Mae dy lun di yn edrych yn ddiddorol iawn', medde'r athrawes, 'Llun o bwy yw hwn?'

'Dwi'n tynnu llun o Duw', oedd yr ateb.

'Ond does neb erioed wedi gweld Duw', oedd ymateb swrth yr athrawes.

'Fe fyddan nhw mewn munud'.

Brwydr Dros Giosg Ffôn Cwmere



Safle ciosg Cwmere

Er gwaethaf ymgyrch gan drigolion yr ardal, mae colled y ciosg ffôn ger Cwmere wedi bod yn siom enfawr, yn enwedig ar ôl i BT addo ei chadw.

Yn ogystal â bod yn hanfodol mewn argyfwng mewn ardal heb signal ffôn symudol, mae'r ciosg wedi bod yn dirnod cyfarwydd erioed, ac yn rhan bwysig o'r tirlun.

Wedi nifer o gwynion mae BT wedi cytuno ail osod ciosg ffôn newydd yn yr un lleoliad, ond mae'r frwydr yn parhau i sicrhau dychweliad yr hen focs coch.

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com



Michael Rowlands
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576

CRONFA ELERI

Sefydlwyd Cronfa Eleri yn 1998, gyda £10,000 o bunnoedd y flwyddyn i'w rhannu (i gynyddu yn ôl chwyddiant). Ers hynny, dosrannwyd dros £330,000 o gymorth i dros 200 o gynlluniau. Er mwyn penderfynu pwy oedd i dderbyn cymorth fe sefydlwyd Pwyllgor Cronfa Eleri a fu'n gweithredu bob blwyddyn ers hynny i drafod y ceisiadau am gymorth ac i awgrymu i gwmi Amgen sut y dylid dosrannu'r arian.

Bu natur y cynlluniau a gefnogwyd yn amrywiol iawn. Cyfrannwyd at gynlluniau adnewyddu adeiladau, prynu offer, gwella adnoddau clybiau, meysydd chwarae i blant, datblygu cyhoeddiadau a myrdd o gynlluniau eraill. Nid yw rheolau Cronfa Eleri yn caniatáu cefnogaeth refeniw (h.y. costau cynnal rheolaidd) i fudiadau a chymdeithasau – dim ond cefnogaeth i gynlluniau penodol.

Gweinyddir y ceisiadau gan *Ysgrifennydd (Mygedol) Cronfa Eleri*. Mae hawl gan unrhyw unigolyn, corff neu fudiad wneud cais am gymorth i weithredu prosiectau sy'n unol ag amcanion Y Gronfa - sef “*Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwylliannol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu.*” Maint Y Gronfa yn 2020 oedd £25,877. Mae'r Gronfa bellach ar gau i geisiadau am eleni. Y cyfnod nesa ar gyfer ceisiadau fydd Tachwedd 2021 i Ionawr 2022. Mae manylion llawn ar gael ar www.cronfaeleri.cymru.

Yn 2020, nifer ceisiadau oedd 9 a cefnogwyd 9 ohonynt. Y cais uchaf oedd £9,500 a'r isaf yn £222. Y gefnogaeth uchaf roddwyd eleni oedd £7,500 a'r isaf yn £222. Yr ymgeiswyr llwyddiannus eleni oedd: Clwb Pêl-droed Ieuencid Tal-y-bont; Sioe Tal-y-bont; Cylchoedd Meithrin Rhydypennau, Trefeurig a Tal-y-bont; Neuaddau Penrhyncoch a Rhydypennau; ag Ysgolion Tal-y-bont a Craig-yr-Wylfa.

BROABER360

Helo bawb, gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iawn. Mae di bod yn fis eithriadol o brysur i BroAber360 i gychwyn y flwyddyn, wrth i ni gynnal Noson Wobrau cynta'r prosiect – gallwch wyllo'r fideo ar dudalennau Facebook a YouTube Bro360 i weld pwy oedd yn fuddugol – ac mae 'na un enillydd cenedlaethol o ardal Papur Pawb! Mae hefyd nifer o straeon diddorol, gan gynnwys un gan Gwilym Jenkins am yr adar sydd wedi diflannu o'r ardal dros y blynyddoedd. Gallwch weld y stori yma a llawer mwy ar www.broaber360.cymru – a gallwch gysylltu â mi ar danieljohnson@golwg.com.

Y LLEW GWYN Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwsr £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245

garethwhitelion@outlook.com

Teyrnged

Simon John Southworth Hughes



Ganwyd Simon i John ac Elizabeth Hughes, Lerry Mills, Tal-y-bont ym 1953. Yn fuan ar ôl ei enedigaeth, aeth y teulu bach i fyw i Malawi (Nyasaland ar y pryd). Dychwelodd Elizabeth a Simon i Dal-y-bont pan oedd babi arall ar y ffordd, cyn i John ail-ymuno â nhw.

Magwyd Simon a'i ddau frawd, Nick a Toby, mewn awyrgylch prysur ffatri wlân Leri. Roedd y teulu i gyd yn rhan o'r busnes a brethyn Tal-y-bont yn boblogaidd yn yr ardal a thu hwnt. Wrth ddysgu am y gwaith bob dydd, enynnwyd diddordeb Simon, nid yng nghynnyrch y ffatri yn unig, ond yn y peiriannau a ddefnyddiwyd.

Derbyniodd Simon ei addysg yn ysgolion Tal-y-bont ac Ardwyn ac ym Mhrifysgol Manceinion. Roedd ganddo ddiddordebau a gwybodaeth eang ac astudiodd peirianwaith, daeareg, cemeg, archaeoleg a hanes, ymysg pynciau eraill. Dyn ymarferol oedd Simon a oedd ar ei hapusaf yn archwilio ardaloedd tan ddaear, yn creu ffrwydradau (bydd trigolion y pentref yn hen gyfarwydd â llawer o'r straeon!) ac yn trwsio peiriannau o bob math.

Yn ystod ei yrfa, gweithiodd fel Is-geidwad yn Amgueddfa Ceredigion; chwiliodd am aur a metelau eraill yng Nghymru, Iwerddon a'r Alban; cyflawnodd waith fel peiriannydd sifil yng Nghymru, Lloegr, Tecsas a Nicaragua, a chynhigiodd gymorth a chyfeiriad i lu o fyfyrwyr a rannodd ei ddiddordebau o'i gegin gynnes yn Nhal-y-bont.

On d dyn ei filltir sgwâr oedd Simon yn ei galon ac fe dreuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn ei bentref genedigol. Caiff ei gofio fel hanesydd mwyngloddio Canolbarth Cymru ac am gyhoeddiadau pwysig fel:

Talybont Mines (Industrial Archaeology, 1981); The Cwmystwyth Mines (British Mining 17, 1981); The Goginan Mines (British Mining 35, 1988); The Darren Mines (British Mining 40, 1990).

Pan yn blentyn, daeth y Clefyd Siwgr (Teip 1) yn rhan o fywyd Simon. Brwydrodd yn erbyn cyfyngiadau'r cyflwr drwy gydol ei oes ac fe lwyddodd i fyw ei fywyd yn unol â'i ddymuniaid ef am flynyddoedd maith. Yn ystod ei flynyddoedd olaf, bu'n derbyn sesiynau dialysis yn rheolaidd a threuliodd nifer o gyfnodau yn Ysbytai Bronglais, Treforys a Glangwili. Hoffai'r teulu ddiolch i'r staff am eu holl garedigrwydd.

Diolch hefyd i bawb a estynnodd eu cydymdeimladau â ni fel teulu. Cynhaliwyd angladd Simon yn yr amlogfa ar 22 Rhagfyr ac mae'r teulu am gydnabod cyfraniad arbennig Nicola Dunkley wrth arwain y dathlu a'r atgofion y diwrnod hwnnw.

Seren Hughes

Hanes Moel Llyn



Moel Llyn

Yn dilyn yr erthygl am adnewyddu Melin Penpompren yn rhifyn Mis Tachwedd o Papur Pawb, dyma hanes diddorol yn gysylltiedig â'r felin.

Ar wefan Plwyf Llangynfelyn, mae rhai dyfyniadau o lyfr hynod ddiddorol Evan Isaac, 'Coelion Cymru'. Mae'r llyfr yn cynnwys llawer o hanesion difyr am ardal Papur Pawb gan gynnwys y stori yma.

Mewn adran sy'n sôn am lynnoedd Cymru, ceir y cyfeiriad hynod am Foel Llyn sydd rhyw bum milltir o bentrefi Tal-y-bont a Thaliesin, i gyfeiriad Pumlumon. Y mae'r mynydd fan hyn yn syth ac yn uchel. O'i sawdl i gyfeiriad y gogledd, ac ar ymyl gwaun Cae'rarglwyddes (fel hyn mae wedi ei sillafu yn y llyfr), mae tarddiad afon Cletwr. I gyfeiriad y de mae'r mynydd yn syrthio'n gyflym i gwm dwfn, ac ar y gwaelod mae tarddiad afon Ceulan sy'n llifo i afon Eleri. Mae pen y mynydd yn eithaf cul a'r llyn yn gorwedd rhwng dwy garnedd fawr. Mae'n debyg fod yr hen Gymry'n defnyddio'r ardal i bwrpas milwrol ac mae lle i gredu bod Owain Glyndŵr wedi gwersylla ar y mynydd, efallai cyn ymladd ym Mrwydr Hyddgen.

On d y mae cryn ddirgelwch am y llyn hefyd. Mae'n ugain llath o hyd a decllath o led ac mae'r dŵr yn loyw ac yn drwm o flas mawn. Hefyd, mae'n llyn hunangynhaliol; does dim dŵr i'w weld yn llifo i fewn nac allan ohono, a haf a gaeaf yr un faint yw cynnwys y llyn!

Yn ôl traddodiad, mae Moel Llyn yn cael ei ddiogelu gan ryw allu goruwchnaturiol! Un haf ni chafwyd glaw am wythnosau. Sychodd yr afon Ceulan i'r fath raddau fel nad oedd yn bosib defnyddio melin Penpompren oedd yn dibynnu ar y dŵr i weithio. Ymgynghorodd y perchennog, Humphrey Jones gyda'r trigolion, ac fe benderfynwyd agor ffos i ollwng dŵr y llyn i'r afon Ceulan. Llwyddodd y gweithwyr i agor tua pedair llath o'r ffos, ond yn ddisymwth, dechreuodd cymylau duon Gronni, fflachiodd mellt a rhuodd taranau. Dychrynodd y gweithwyr gymaint fel iddynt ddianc oddi yno am eu heinioes.

Mae ôl y ffos fechan yno o hyd, ond aeth neb fyth yn ôl i ollwng dŵr Moel Llyn.



Melin Penpompren

H.J.

Cletwr

Mae'r Mis Bach wedi cyrraedd.

Un o'r rhesymau am agor a rhedeg Cletwr (a siopau cymunedau eraill) yw cynnig cefnogaeth i'r gymuned leol, nid yn unig drwy gynnig gwasanaeth i'r bobl yn ein cymuned, ond hefyd i gefnogi busnesau lleol, sy'n rhan hanfodol o'n cymuned. Felly mae'n bleser o'r mwyaf gweld cynnyrch gan fferm leol ar ein sillfoedd.

Mae Teulu Jenkins wedi bod yn ffermio yng Ngherrigaranau ers amser maith iawn, ond nawr maen nhw wedi lansio menter newydd: gwerthu eu llaeth yn uniongyrchol drwy beiriannau hunan wasanaeth. Mae'r peiriant cyntaf wedi agor yn Aberystwyth, ac mae ail ar ei ffordd i Fachynlleth, ond, o ddi-ddordeb i ni yn arbennig, mae'r llaeth bellach ar gael o Gletwr (ond dim peiriant). Ac am laeth! Llaeth organig, cyflawn wedi ei basteureiddio, heb ei homogoneiddio, gyda blas arbennig, i gyd mewn potel wydr (mae ernes o £2 ar y botel). Ond, hyd yn oed yn well, rydym yn gwerthu ysgythaethau Jenkins hefyd. Mae'r un siocled yn *LYSH!*

Mae'r llaeth blasus yn ymuno â chynnyrch gan sawl cynhyrhydd arall: cig oen a chig dafad, tatws o Gapel Bangor, mêl, llysiau salad o Gwm Einion, clymau o flodau, cardiau pen-blwydd, a llawer mwy. Rydym yn awyddus i stocio cymaint o gynnyrch lleol ag sy'n bosib, felly os ydych yn cynhyrchu rhywbeth yn yr ardal, ac eisiau gwerthu drwy siop leol, cysylltwch â Cletwr i'w trafod.


Mae nifer o ddigwyddiadau wedi bod ar Zoom ym mis Ionawr, gan gynnwys Cwis am Natur a Hanes Lleol. Diolch i Naomi am osod y cwestiynau am y byd natur. Ydych chi'n gwybod bod blodyn swyddogol gan Geredigion? Wir! Rhosmari gwyllt (*Andromeda polifolia*, *bog Rosemary*). Dysgu rhywbeth newydd bob dydd! Mae rhestr o bopeth mae Rach yn ei drefnu ar ein tudalen Facebook, fel arfer.

Mae'r 'Prydau Cartref o Safon', sef ein Gwleddoedd Gwener, yn llwyddiant ysgubol! Bob wythnos maent yn gwerthu mâs o fewn ychydig oriau i agor y rhestr archebu. Yn anffodus does dim modd gwneud mwy oherwydd maint y gegin. Felly rydym wedi cychwyn cynnig bwyd ar noson arall, ond bwyd mwy syml. Mae'r "Mid-week Mash-up" (Stwnsh nos Fercher?) yn cynnig prydau o fwyd mwy syml, am tua £5, fel pastai bugail, pastai cenhinen gyda chyw iâr neu fadarch ayyb. Manylion ar y wefan. Ac fe fydd Byrgrŷ o Aberystwyth yn cynnig pop-up arall ar 23ain o Chwefror. Rhaid archebu o flaen llaw.

Mae'r cafffi dal ar gau oherwydd y Gofid, ond mae'r siop ar agor. Gawn ni bwysleisio i bawb bwysigrwydd y rheolau iechyd sydd mewn grym. Rydym am warchod ein staff a'n cwsmeriaid, felly mae'n orfodol i bawb sy'n dod i mewn wisgo mwgwd, heb eithriad. Os oes rheswm ichi fethu â gwisgo un, mae dau opsiwn: cewch archebu drwy e-bost neu dros y ffôn, (am ddsbarthu neu gasglu) neu cewch aros tu allan ac fe fydd y staff yn dod a'ch negeseuon allan i chi.

Cadwch yn saff ac yn iach, bawb.

Nigel Callaghan



James Memorials

Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111



Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaerniol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ

helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

PROSIECT CYMUNED CREADIGOL

DYDD GWENER 26 CHWEFROR
13.30 - 15.00

Cysylltwch gyda elincrowley@gmail.com
os hoffech fynychu'r sesiynau ymarferol
hyn ar Zoom.


 

Grant Mayhew Ltd
GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

Y Gair Olaf



Bro fabwysiedig ydi'r ardal yma imi. Dod i goleg yn Aberwnes i, a bod digon lwcus i gael swydd yn y Llyfrgell Genedlaethol ar ôl graddio. Yno fe gwrddais Robyn fy ngŵr; wyddoch chi fod y Llyfrgell wedi bod yn gyfrifol am sawl priodas dros y blynyddoedd! Yna ymgartrefu yn Ffwrnais, magu teulu a chael byw bywyd Cymreig gan anfon ein plant i ysgolion Cymraeg yr ardal, a chymdeithasu drwy ein mamiaith.

Byddai fy mywyd wedi bod yn wahanol iawn os na fyddwn wedi cael gwaith yn y Llyfrgell; heb os mae gweithio yno wedi bod yn rhan bwysig iawn o'm mywyd. Mae'n fraint gweithio gyda'r casgliadau, a'm cyd-weithwyr gwych o Gymru a phob cwr o'r byd. Mae'n le unigryw iawn gan ein bod yn gallu gweithio canran helaeth o'n hamser yn siarad Cymraeg.

Bu'r mis diwethaf yn anodd, gyda'r bygythiad o golli 30 swydd yno. Byddai effaith colli cymaint o swyddi'n bellgyrhaeddol, nid yn unig i wasanaethau a statws y Llyfrgell ond i Geredigion a gweddill Cymru. Mae'r Llyfrgell yn gyflogwr pwysig iawn, mae'n asgwrn cefn i ardal fel hon. Fe fyddai'n ergyd i 30 aelwyd Gymraeg, ergyd i'n hysgolion, cymunedau a'n busnesau lleol.

Rwy'n ysgrifennu hwn ar fore cyhoeddi arian i ddiogelu swyddi, a diolch i'r staff a'r undebau am arwain ymgyrch mor frwd i dynnu sylw at y sefyllfa. Mae gobaith nawr am lunio cynllun er mwyn sicrhau dyfodol i'r Llyfrgell: mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn llawer mwy nac adeilad ar y bryn.

Lona Mason

CHWARAEON

PAPUR PAWB YN HOLI: IOLO AP GWYNN

Yn y gyfres hon am brofiadau'r sawl sy'n ymddori mewn chwaraeon o bob math, trown at y sgiwr profiadol Iolo ap Gwynn, Tal-y-bont:

Pryd ddechreuaist ti sgïo ac ymhle?

Y cam cyntaf oedd penderfynu gwneud hynny. Digwyddodd hynny wrth i mi groesi rhewlif yn uchel ar y *Duforspitze* (15,203 tr), mynydd uchaf y Swistir yn haf 1969. Roedd hi'n anodd cerdded drwy'r eira trwchus ond daeth dau Almaenwr heibio i ni yn rhwydd, ar sgis – a meddyliais, dyna syniad da. Ddeunaw mis yn ddiweddarach cawsom ein gwyliau scïo, a gwersi, cyntaf yn Bürserberg, Awstria. Doedd ddim tro nôl wedyn.

A oes 'na gyfleusterau da ar gyfer dysgu sgïo yng Nghymru?

Mae sawl llethr artiffisial plastig i'w gael. Mae'r gorau ar Ben y Gogarth, ger Llandudno, ond mae rhai llai – a digon addas ar gyfer dysgu ac ymarfer – ar gael yn Llangrannog a Chapel Curig. Mae un yn y Tyllgoed, ger Caerdydd ac ym Mhontypŵl hefyd. Os am eira, mae'n bosib cael digon ar gopaon Eryri weithiau (fel a ddigwyddodd yn ddiweddar) – ond mae'n waith caled cerdded i fyny bob cam, cyn cael cyfle i lithro yn ôl i lawr!

A gawsot erioed dy anafu a/neu fod mewn perygl wrth sgïo?

Dim anaf difrifol. Ambell i gnoc, wrth gwrs. Yn arbennig ar y dechrau. Mae mynyddoedd, yn eu hanfod, yn medru bod yn lefydd peryglus. Petai ymlau'r sgis yn colli eu gafael ar ambell i *piste* serth gallai rhywun ddisgyn yn bell iawn, allan o reolaeth. Does wybod beth fyddai rhywun yn daro! Mae hyn yn arbennig o wir os yw wyneb yr eira wedi rhewi'n galed. Ond mae pob *piste* yn cael ei raddio: Gwyrdd (hawdd iawn), Glas (hawdd), Coch (anodd) a Du (anodd iawn). Daw pob un i adnabod ei safon ei hunan. Dwi'n tueddu i osgoi'r llethrau Du, bellach. Mae perygl cwmp eira (*avalanche*) yn amrywio yn ôl yr amodau a cheir digon o arwyddion os ydi'r sefyllfa'n beryglus. Dwi wedi sgïo oddi ar y *piste*, ambell dro. Y mwyaf cofiadwy efallai, a ddim heb risg, oedd dod i lawr o'r *Aiguille du Midi*, uwchben *Chamonix*, Ffrainc, drwy gwmp rhew a rhewlif y *Vallée Blanche* – trip diwrnod cyfan.

Yn dy farn di, pa wlad sydd orau ar gyfer sgïo a pham?

Yn Ewrop, a does gen i ddim profiad mewn unrhyw ran arall o'r byd, anodd curo Awstria ar gyfer dysgu. Ond, wedyn, rhaid mynd am fynyddoedd uwch i gael y gorau. Mae llechweddau *Espace Killy*, Ffrainc, yn dda iawn. Ond fy ffeffryn, o bell ffordd, ydi *Zermatt* yn y Swistir. Does dim curo ar safon eu darpariaeth na'r golygfeydd anhygoel o dros ugain o fynyddoedd dros 4,000 m yn eich amgylchynu – a'r *Matterhorn* enwog yn eu mysg.

Llun gan Rhys ap Iolo: Iolo (gyda'i gamera!) yn sgïo yn *Flaine*, Ffrainc gyda *Mont Blanc* yn y cefndir.

 HUW LEWIS 	Teiars Aliniad Olwyn Ecsôsts Batris Brêcs Hongiad Bar tynnu Gwasanaeth MOT	 HUW LEWIS 
Glanrafon	HUWLEWISTYRES.COM	Rhodfa'r Parc
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor. Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan ALIGNMYCAR.CO.UK Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.		
ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000 LLANBED 01570 422221		

Pêl-droedwyr 1985



Mynegwyd cryn ddiddordeb yn y llun o bêl-droedwyr lleol a ymddangosodd yn y rhifyn diwethaf. Holwyd a oedd moddi ni gynnwys enwau nhw i gyd. Diolch i Mark Ebenezer am enwi'r cyfan ond un. Pwy yw'r un dyn bach ar ôl sy'n sefyll rhwng Spencer a Gwyn y Garej? Rhowch wybod i'r golygydd cyffredinol.

Cefn: Gwilym Felix Roberts, Bryn Smith, John Walsh, Mike Davies, Ray Smith, Mark Ebenezer, Paul Reedman, Anthony Southgate, Geraint Roberts, Wil Metcalfe, Spencer Davies, ???, Gwyn Davies, Alwyn James, Kevin Roberts, Dennis Roberts.

Blaen: Ron Roberts, Richard Jones, Keith Hughes, John Southgate, Charlie Evans, George Barron, Barry Williams, Ray Hughes, Kenny Southgate.